

Adroddiad ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Hydref 2022



1. Cyflwyniad

Ar 20 Medi, cyflwynodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (y Bil)¹, ynghyd â Memorandwm Esboniadol². Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i gyd-fynd â'r Bil hefyd.³

1. Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd i beidio â chyfeirio'r Bil at Bwyllgor cyfrifol er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol. Dywed adroddiad y Pwyllgor Busnes, a osodwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.10A:

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Senedd ddefnyddio amserlen gyflym i graffu ar y Bil hwn ar y sail canlynol: bod angen brys gweithredu gwaharddiad yng Nghymru ar y plastigau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel amlaf, i gyd-fynd â gwaharddiadau cyfatebol yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac; oherwydd y bwriad i ddefnyddio'r Bil fel enghraifft ymarferol i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn y Goruchaf Lys."⁴

2. Mae adroddiad y Pwyllgor Busnes hefyd yn dweud:

"Ar sail y gwaith craffu y mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi llwyddo ei wneud yn yr amser a oedd ar gael iddo, ac o ystyried yr amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â'r Bil, cytunodd y Pwyllgor

¹ Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

² Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), [Memorandwm Esboniadol](#), Medi 2022

³ Llywodraeth Cymru, Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru): [Datganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth](#), Medi 2022

⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Diogelu'r Amgylchedd \(Cynhyrchion Plastig Untro\) \(Cymru\)](#), 4 Hydref 2022

*Busnes ar 27 Medi 2022 i beidio â chyfeirio'r Bil at Bwyllgor cyfrifol i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol."*⁵

Diben y Bil

3. Mae'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) i ddefnyddiwr yng Nghymru y cynhyrchion plastig untro (SUP) di-angen penodol, sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel, a restrir yn Atodlen 1 i'r Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu ddileu cynhyrchion plastig untro at y rhestr o gynhyrchion yn y Bil y mae'n drosedd eu cyflenwi (neu gynnig eu cyflenwi).⁶

4. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y Bil yn cynnig:

- Bod y drosedd yn drosedd ddiannod ac felly gall fod yn destun achos mewn Llys Ynadon. Os ceir y person yn euog o'r drosedd, caiff y Llys roi dirwy ddiderfyn.
- Gofyniad o dan adran 79(2) o Ddeddf 2006 i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar yr ystyriaeth maent wedi'i rhoi ynghylch a ddylid arfer y pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu rhagor o gynhyrchion at y rhestr o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig yn Atodlen 1 i'r Bil y mae'n drosedd eu cyflenwi (neu gynnig eu cyflenwi) a gwneud unrhyw ddiwygiad arfaethedig i'r esemptiadau a restrir yn Atodlen 1 i'r Bil.
- Y bydd awdurdod lleol neu berson wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol yn gyfrifol am orfodi troseddau o dan y Bil.
- Darparu pwerau i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol gael mynediad, cynnal ymchwiliad a gwneud pryniadau prawf. Bydd hyn yn eu galluogi i ymchwilio i weld a oes trosedd wedi cael ei chyflawni.
- Ei gwneud yn drosedd rhwystro yn fwriadol swyddog awdurdodedig awdurdod lleol sy'n arfer ei swyddogaethau gorfodi o dan y Bil.

⁵ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), 4 Hydref 2022

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

- Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn darparu ar gyfer gallu gwneud sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a grëir gan y Bil.⁷

Cefndir y Bil

Pwrpas polisi'r Bil

5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi cefndir polisi'r Bil ac yn dweud:

"Mae mynd i'r afael ag effeithiau negyddol llygredd plastig ar ein hamgylchedd, ein bywyd gwyllt, ein hiechyd a'n llesiant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac yn un o ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu."⁸

6. Mae Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol⁹ yn nodi'r materion polisi yn fanwl.

Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

7. *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* ("UKIMA") a sefydlodd egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer marchnad fewnol y DU, sy'n cynnwys yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau. Mae'r egwyddor hon yn darparu y dylid bod modd cyflenwi, mewn unrhyw ran arall o'r DU, nwyddau sydd wedi cael eu cynhyrchu yn un rhan o'r DU, neu eu mewnforio i un rhan o'r DU, ac y gellir eu gwerthu¹⁰ yno heb fynd yn groes i unrhyw gyfyngiad deddfwriaethol. Er mwyn gweithredu'r egwyddor hon, mae adran 2(3) o UKIMA yn datgymhwyso unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol a fyddai fel arall yn berthnasol i werthu'r nwyddau hynny yn y rhan arall honno o'r DU.

8. Gellir esbonio'r egwyddor hon drwy ddefnyddio enghraifft ddamcaniaethol: os caniateir i fusnesau yn Lloegr werthu cadeiriau gwyrdd, gellir gwerthu'r cadeiriau hynny yn gyfreithlon yng Nghymru hyd yn oed os oes deddf sy'n gwahardd gwerthu cadeiriau gwyrdd yng Nghymru.

9. Mae gan ddarpariaethau'r Bil sy'n ceisio gwahardd cyflenwi¹¹ bagiau siopa plastig a phlastigau oco-ddiraddiadwy y potensial i gymhwyso'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1.2

⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1.1

⁹ Memorandwm Esboniadol, Rhan 2

¹⁰ Yn UKIMA, mae "gwerthu" yn cynnwys darparu rhywbeth yn rhad ac am ddim

¹¹ Yn UKIMA, mae "cyflenwi" yn cynnwys gwerthu, ei ddarparu yn rhad ac am ddim a/neu gynnig gwneud y naill neu'r llall o'r pethau hynny

gyfer nwyddau. Er enghraifft, yn Lloegr, mae deddfwriaeth yn gwahardd cyflenwi gwahanol blastigau untro¹² ond nid oes unrhyw gyfyngiadau ar fagioiau siopa na phlastigau ocso-ddiraddiadwy. Mae hyn yn golygu bod y Bil yn arfer yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol oherwydd ei fod yn cynnig gwahardd rhag cyflenwi yng Nghymru nwyddau (bagiau siopa a phlastigau ocso-ddiraddiadwy) a ganiateir yn Lloegr.

10. Fodd bynnag, effaith UKIMA yw nad yw'r darpariaethau hynny o'r Bil yn cael unrhyw effaith o ran ceisio atal busnesau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon rhag cyflenwi bagiau siopa neu blastigau ocso-ddiraddiadwy i unigolion neu fusnesau yng Nghymru. Mae'r gwaharddiad yn cael ei ddatgymhwyso.

11. Er gwaethaf hyn, nid yw Memorandwm Esboniadol ac asesiadau effaith y Bil yn cynnwys gwybodaeth am yr effeithiau posibl y gallai UKIMA eu cael ar effaith ymarferol y ddeddfwriaeth.

Her gyfreithiol UKIMA, rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r amserlen

12. Pan gyhoeddwyd y Bil am y tro cyntaf fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, amlinellodd y Prif Weinidog ei fwriad i ddefnyddio'r Bil fel achos prawf fel rhan o her gyfreithiol barhaus Llywodraeth Cymru i UKIMA.¹³

13. Ddechreuodd yr her yn 2021 ar 19 Ionawr pan wnaeth Llywodraeth Cymru gais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol mewn perthynas â'r dehongliad o ddarpariaethau UKIMA a'u heffaith ar ddeddfwriaeth y Senedd a ddeddfwyd yn unol â darpariaethau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

14. Cafodd cais Llywodraeth Cymru am ganiatâd ei wrthod gan y Llys Adrannol, ac aflwyddiannus oedd ei hapêl yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Llys Apêl. Cadarnhaodd y Llys Apêl benderfyniad blaenorol yr Uchel Lys, sef bod yr achos wedi'i ddwyn yn gynamserol, gan ddweud mai dim ond pan fydd y Senedd yn cyflwyno deddfwriaeth benodol yr honnir bod ei heffaith bosibl yn cael ei lleihau gan y Ddeddf y gall y Llys wneud penderfyniad.

15. Ceisiodd Llywodraeth Cymru ganiatâd i apelio i'r llys uchaf yn y DU, y Goruchaf Lys.¹⁴ Ni fynegodd y Goruchaf Lys farn ar rinweddau'r achos, dim ond gwrthod y cais am ganiatâd i apelio.

¹² Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig) (Lloegr) 2020

¹³ Cyfarfod Llawn, 5 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion, [114]

¹⁴ Y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Mawrth 2022, Cofnod y Trafodion, [84]

Cynigion ar gyfer gwelliannau Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2

16. Ar 20 Medi 2022, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i nodi, ymhlith pethau eraill, ei bod hi'n fwriad gan Weinidogion Cymru gynnig gwelliannau yng Nghyfnod 2, gan gynnwys cyflwyno trosedd drwy wella adran 5 y Bil:

"Mae newid i adran 5 i sicrhau na fydd y drosedd o "gynnig cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig yn gallu cael ei dehongli fel un sy'n cynnwys gweithredoedd and oeddem yn bwriadu eu cynnwys. Yn benodol, mae'r newidiadau hyn yn sicrhau mai dim ond ar safleoedd yng Nghymru y gellid cyflawni'r drosedd. Wrth wneud hyn rydym hefyd am achub ar y cyfle i'w gwneud yn gliriach y byddai person sydd y tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd os ydyn nhw'n "cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru (er enghraifft trwy werthiant archeb ar-lein neu drwy'r post).¹⁵

17. Amlinellodd y Gweinidog y gwelliannau arfaethedig y mae'n bwriadu eu cyflwyno. Mae dwy senario lle y gellir cyflawni trosedd o dan y gwelliannau arfaethedig: a. cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru, gan gynnwys trwy ddanfôn y cynnyrch at ddefnyddiwr sydd yng Nghymru; neu b. cynnig, mewn safle yng Nghymru, i gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr.

18. Mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol, ymhlith pethau eraill, i ddarpariaethau mewn Deddf gan Senedd Cymru fod yn gymwys i Gymru yn unig. Mae'r prawf hwnnw'n ymwneud ag a fydd gan Ddeddf gan Senedd Cymru gymhwysiad neu effaith ymarferol heblaw mewn perthynas â Chymru - h.y. yn y cyd-destun hwn, os oes gan droseddau gysylltiad digonol â Chymru. Nid yw'n golygu y gall Deddf Senedd effeithio ar bobl yng Nghymru yn unig.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

19. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 20 Medi 2022

20. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a ddewiswyd gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

21. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 3 Hydref 2022.¹⁶ Yn union wedi'r cyfarfod, aethom ati i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn gofyn am eglurhad o'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru dros geisio proses gyflym ar 12 Gorffennaf, 20 a 27 Medi 2022, a rhesymau'r Pwyllgor Busnes dros benderfynu o blaid proses gyflym.

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹⁷

Cyffredinol

22. Buom yn ystyried y Bil hwn o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o Ddeddf 2006.

23. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Llywydd, Elin Jones AS:

"...yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."¹⁸

24. Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 3 Hydref 2022, cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹⁹ Yn ogystal, cadarnhaodd y Gweinidog, ynghyd â'i swyddogion, fod gwelliannau Cam 2 arfaethedig a hysbyswyd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith hefyd o fewn cymhwysedd.²⁰

Hawliau dynol

25. Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid i Fil ei fodloni er mwyn bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawliau'r Confensiwn).

26. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa asesiad a oedd wedi ei wneud o oblygiadau hawliau dynol y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, yn benodol gydag erthyglau 6 ac 8, ac erthygl 1 o brotocol 1. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

¹⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

¹⁸ [Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol](#), 20 Medi 2022

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [6]

²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [77-97]

"We think it achieves a fair and proportionate balance between the protection of the rights of those affected by the Bill and the effectiveness of the enforcement of the proposed regime."²¹

27. Mae adran 10 o'r Bil yn caniatáu i ynad heddwch gyhoeddi gwarant sy'n awdurdodi awdurdod lleol i fynd i mewn i gartref person, trwy rym os oes angen, er mwyn canfod a gyflawnwyd trosedd. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa asesiad a wnaed i bennu a yw'r ddarpariaeth hon yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol ai peidio. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y ddarpariaeth hon yn gysylltiedig â chosb droseddol a bod y Bil yn gwneud trosedd.²² Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

"...section 9 is the power of entry for commercial premises, essentially. The Bill is aimed at supply in the course of a business, but we recognise that some businesses can operate from domestic premises too, so section 10 is a separate power of entry for those premises. There does have to be a warrant issued by a Justice of the Peace, and they themselves will be a section 6 Human Rights Act 1998 public authority, so when the Justice of the Peace is considering a warrant application, they have to assess that as being proportionate and necessary with convention rights as well. So, it's only really allowing entry to dwellings, as I say, with a warrant where a Justice of the Peace is satisfied as to the matters in section 10, and they are that it is reasonable to believe an offence has been committed and that it really is necessary to enter those premises in order to investigate that."²³

Ein barn ni

28. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog am faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

29. O ran unrhyw oblygiadau hawliau dynol posibl y Bil, nodwn fod y Gweinidog yn fodlon bod y Bil, yn ei gyfanrwydd, yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

30. Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas ag adran 10 o'r Bil.

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [11]

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [58]

²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [59]

3. Arsyllwadau ar y Bil

Pwrpas y Bil, amserlen y Senedd a her gyfreithiol UKIMA

31. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam ei bod yn briodol defnyddio proses ddeddfwriaethol gyflym er mwyn helpu her gyfreithiol Llywodraeth Cymru i UKIMA.²⁴ Meddai'r Gweinidog:

"...I'm speaking to you today from the National Botanic Garden of Wales, where I'm in the middle of the biodiversity conference and launching the outcome of the deep-dive. If you were listening to the people here, you would be very convinced that not only do we need to do this fast, we should have done it already, and the faster we can get these harmful items out of our environment, out of our marine environment and out of our land and freshwater environments, the better. So, it's expedited because it's important to get these items out of our environment with the best speed that we can manage."²⁵

32. Ychwanegodd y Gweinidog:

"So, on UKIMA, we think that UKIMA does not bite on this Bill. We think that the provisions of the Bill are entirely within the legislative competence of the Senedd. It's not our intention—. It's not for me to decide this as well, ... , I should say, but it's obviously the Counsel General's opinion, but it's not my understanding that the Counsel General is planning to refer this proactively to the Supreme Court, assuming it gets through the Senedd and we get to that stage. Obviously, if the UK attorney general does that, then we will react accordingly. It's our position that this Bill is entirely within our competence, and that UKIMA is not capable of changing the devolved competence of the Senedd."²⁶

33. Fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad, pan gyhoeddwyd y Mesur am y tro cyntaf fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, amlinellodd y Prif

²⁴ Yn anffodus, ni chafodd adroddiad y Pwyllgor Busnes sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 26.10A ei gyhoeddi tan 4 Hydref ac felly nid oedd modd i ni ei ystyried wrth holi'r Gweinidog.

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [16]

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [18]

Weinidog ei fwriad i ddefnyddio'r Bil fel achos prawf fel rhan o her gyfreithiol barhaus Llywodraeth Cymru i UKIMA.

34. O ystyried sylwadau'r Gweinidog ynghylch ei rhesymu dros broses graffu gyflym yn y Senedd, gwnaethom ofyn iddi pryd y symudodd y pwyslais o'r Prif Weinidog yn nodi bod angen proses gyflym fel y gellid defnyddio'r Bil fel her i effeithiau ymarferol UKIMA, i safbwynt y Gweinidog ei bod hi'n bwysig gweithredu'n gyflym. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"I'm not sure, to be honest—you'll have to ask the First Minister what the reasoning was for that. I'm very clear that the reason for the expedition here is that we do not want to fall behind the Scottish and English Governments, in particular. We certainly don't want a situation where people are trying to dump single-use plastics on Wales because they're banned everywhere else in the United Kingdom. So, from my point of view, the expedition of this Bill is to do with making sure that we are at the forefront of this legislation, that we don't have products in Wales that are permitted anywhere else, and, frankly, that climate and nature emergencies are so extreme that we need to get this sorted out and out of our supply chains as fast as humanly possible."²⁷

35. Fe wnaethom awgrymu i'r Gweinidog ei bod yn glir o'r hyn a ddywedodd wrthym fod y ddadl dros broses gyflym wedi newid o'r hyn a roddwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor Busnes. Gofynnwyd iddi a oedd hi'n ymwybodol o'r adeg y cafodd y ddadl newydd ei rhoi gerbron y Pwyllgor Busnes, neu yn wir a oedd wedi'i rhoi gerbron y Pwyllgor, neu a yw'r ddbyniaeth ar y sêl bendith ar gyfer gweithdrefn gyflym yn dal i orffwys ar yr her gyfreithiol honno. Dywedodd y Gweinidog:

"I wasn't at the Business Committee, ... , as I'm sure you realise, so I'm not too sure myself, I'm sorry, about what quite was taken into account there. But we have consistently made the argument that the reason that we need to do this in this expedited way is because we want to ensure that we get this single-use plastic banned as fast as possible. We don't want to fall behind the other UK nations that are also introducing their own, or have already introduced their own bans, although our ban is slightly more extensive than theirs. And we certainly don't want to have any chance of there being supplies of single-use plastics dumped in Wales, because we're tail-end

²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [20]

Charlie—that would be absolutely catastrophic—and therefore, we need to get this onto the statute book as fast as possible.

Obviously, the UK Internal Market Act 2020 judgment, as I'm sure that the committee is very well aware, probably more aware than I am, effectively shelved the question of the competence issue because it didn't have a specific example in front of it. And I believe, at that time, the First Minister and the Counsel General made statements to the Senedd about the possibility of this Bill being the actual live example that might bring it back into the court's competence. But my understanding is, and in my conversations with the Counsel General this has been the case—that our view is that this does not engage UKIMA, because the constitution of Wales can't be impliedly repealed by a route that doesn't specifically say that it's changing the devolution settlement. So, our view is that this is within the devolution settlement for Wales, therefore it's clearly within our competence, and we plan to legislate for it.

... But I am very clear that we think that UKIMA does not bite on this Bill, because it's within our competence—clearly within our competence—and the need for expedition is to make sure that we do not fall behind the UK nations and that we do not have any possibility of being the last bastion of these products in the UK. And then, as I say, because I'm down here at the biodiversity conference, you've only got to listen to the people talking about the problems in our marine environment, in our freshwater rivers and so on, for you to get a fire into your belly to get these things out of the market as fast as humanly possible. So, I really do think that there is a time imperative for this that is overriding everything else.”²⁸

36. Yn dilyn ein cyfarfod, codwyd y mater gyda'r Cwnsler Cyffredinol mewn cyfarfod llawn a dywedodd:

“... there are two aspects to this. One, of course, is that we want to expedite for all the reasons that have been outlined in terms of the importance of the single-use plastics Bill, getting that through, and of course in terms of the timescale within the World Trade Organization time limit that's been set. So, all those things exist and are perfectly valid.

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [33-35]

But there is also a very valid role that I'm still keeping under very close consideration in respect of our challenge to the internal market Act. One of the difficulties I have in terms of making a very clear position and a very clear decision as to precisely what steps we will take is that my option to refer doesn't arise until the legislation has actually been passed. There may be the issue to consider as to whether, in fact, UK Government would choose to refer this. There may also be the alternative in fact that, within perhaps the not-too-distant future, there'll be a change of Government and we'll have the abolition of the internal market Act, which would save us an awful lot of trouble and inconvenience.

So, I suppose really what I'm saying is that all those options are there and the reasons for the expedition are there, but they are twofold. It's just that, in terms of the precise step forward that we take once the legislation is passed, it is a matter for me to consider at that time and I will of course make a statement at that stage."²⁹

37. Ychwanegodd:

"... our position remains completely clear that we do not believe the internal market Act overrides our own devolved powers and responsibilities. We had hoped much, much earlier that that would have been clarified and that the Supreme Court would have taken the option, or the opportunity, to clarify that. It hasn't rejected our arguments; it just basically has said that it needs to consider them when it has a practical example for them. When that practical example comes, we need to be ready to actually do that and to deliver that. But that will be a consideration I'll make in due course, once the legislation has been passed. And I will, of course, make sure that there is a proper statement and debate in this Chamber."³⁰

38. Gwnaethom ofyn hefyd i'r Gweinidog a oedd hi'n poeni am y diffyg craffu. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"We have engaged with a wide range of stakeholders through the development of the policies that fed into this Bill. This has been under discussion for some considerable time. We've also undertaken targeted

²⁹ Y Cyfarfod Llawn, 5 Hydref, Cofnod y Trafodion [114-116]

³⁰ Cyfarfod Llawn, 5 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [120].

engagement with key stakeholders, industry, retail representatives to explore all the feedback we've got to refine the proposals in the Bill. We are working closely with anyone impacted by the proposed changes to manage the implementation phase for them to be able to swap to more environmentally friendly products...

... to support the scrutiny process, on 15 August we published the draft Bill that enabled this committee, other committees and interested stakeholders an opportunity to see the proposed scope and direction of the Bill. The Climate Change, Environment and Infrastructure Committee also had an opportunity to consult, themselves, on the proposal, and I wrote to the Chair of that committee at introduction, to set out some minor changes we intend to propose to the Bill at Stage 2, which have arisen because we'd already published the draft Bill and we didn't want to change it as we went into this stage for the various committees."³¹

39. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban gyfyngiadau tebyg ar blastig untro yn yr Alban gan ddefnyddio pwerau o dan adran 140 o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* (Deddf 1990). Defnyddiodd Llywodraeth y DU yr un pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer Lloegr. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyflwyno Bil pan allent hwythau hefyd fod wedi gwneud rheoliadau o dan Ddeddf 1990. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"...we think it's very important that this is set out in primary legislation, and specifically, ... , we are very keen to be able to keep this up to date. So, in our consultation responses... around 60 different products were put forward by people across Wales as possible inclusions on the list of banned single-use products. So, I'm very keen that the Bill allows us a power to add in products once we've got the right evidential base for that and we're satisfied about the impact on the manufacturers and the suppliers, and so on. So, actually, it's very important for me that it isn't just a list of what's going to be banned right now, but it's a vehicle by which we can keep this legislation up to date, and as the technology moves and as the environmental impacts of this stuff become more widely known for each individual product, then we'll be able to

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [22-23]

add it in. And I think that's actually one of the fundamentally most important parts of the Bill."³²

Effaith bosibl UKIMA

40. Mae'r Bil hwn yn cyfyngu ar gyflenwi bagiau siopa untro a phlastigau oco-ddiraddiadwy. Nid oes cyfyngiad o'r fath yn Lloegr. O dan delerau UKIMA, felly, ni fydd cyflenwi bagiau siopa untro a phlastigau oco-ddiraddiadwy a gynhyrchir yn Lloegr neu sy'n cael eu mewnforio i Loegr wedi'i wahardd yng Nghymru. Felly, gofynnwyd i'r Gweinidog am y goblygiadau i'r Bil. Dywedodd y Gweinidog:

*"...we take a slightly more robust view of that, basically. So, we're saying that neither UKIMA, as we do call it, or the exemption bite, because the Bill deals with non-reserved matters within the Senedd's competence, but we're clear and consistent that our view is that the internal market Act cannot limit the Senedd's competence to legislate on matters that are devolved. The Counsel General's challenge to the UK internal market Act rests on the argument that the Government of Wales Act 2006 is a constitutional statute and cannot be impliedly repealed by other Acts; it has to be specifically repealed if it's going to be repealed. That's our position. There's no doubt at all that this Bill is capable of providing the contextual example that the court spoke about when it deferred the judgment on that, but my understanding, in my conversation with the Counsel General so far, and Nick has just confirmed it and I'm sure he'll add to this as well, is that, at this point in time, our Counsel General does not intend to refer the matter to the Supreme Court itself; we're just going to let the legislation go through the Senedd in the normal way and, assuming it passes, then we will put it up for the King's consent and it will then be our law. Of course, the Attorney-General could refer it in from the English side—it will be interesting to see whether they do that or not, I suppose. We'll see, but it's not our attention to do that, as I understand it. I do emphasise to the committee that's not my decision; that's a decision for the Counsel General."*³³

41. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [25]

³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [61]

*"As you say, it is open to the Counsel General to refer the Bill, as it is with any other Bill that the Senedd passes. He has to take that decision within four weeks of the Bill being passed, and the reason that that's the appropriate time to take the decision is, until then, you don't know what the final content of the Bill is. But, as the Minister said, the Counsel General did say, at introduction, that he's not currently minded to refer the Bill, and that's because he's taken the view, as has the Llywydd, that it's within competence, that these are matters that we can legislate about and that we can ban the supply of these items into Wales. I think the question was whether it's possible for a court to take a different interpretation. It may be that the UK Government takes a different interpretation and, as the Minister says, it's then open to the Attorney-General to refer the Bill, and the issues would be have to be considered by the court. But we're clear, in our view, that we think we can do this."*³⁴

42. Nid yw Memorandwm Esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol y Bil yn cynnwys gwybodaeth am yr effaith bosibl y gallai UKIMA ei chael ar effaith ymarferol y Bil hwn. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd hi'n poeni y gallai hynny olygu nad yw unigolion a busnesau yn ymwybodol o ystod lawn y gyfraith yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym

*"...I think it's fine. We take a very robust view that the internal market Act does not bite. So, having taken that view, it would be very odd to put it in our explanatory memorandum, wouldn't it? We just take the view that it's not relevant. It doesn't bite, it doesn't affect our competence, and therefore we're not taking it into account. It would be very self-contradictory to then set out some 'what ifs', if you like. So, I'm very confident that that's the right thing to do, and, as I say, more generally, we will be putting out a big public information campaign about this, and, anyway, we've been working with all of our various stakeholders, and you can imagine them, and there will be advice available through Business Wales and various other things, not only that you should stop supplying the products banned under this Bill, but how to get alternative suppliers and all the rest of it, and, actually, and I think very importantly for the businesses, how to market the fact that you're not using these products. Because actually it's very marketable."*³⁵

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [62]

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [71]

Adran 1 – Cysyniadau allweddol: “cynnyrch plastig”, “untro” a “plastig”; **Adran 2 – Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig; Adran 3 –** **Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio**

43. Mae Adran 1 yn diffinio cysyniadau allweddol at ddibenion y Bil yn ymwneud â “cynnyrch plastig”, “untro” a “plastig”.

44. Mae Adran 2 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n rhestru'r cynhyrchion hynny sy'n gynhyrchion plastig untro at ddiben y Bil. Mae adran 3 o'r Bil yn darparu pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru ar gyfer diwygio Atodlen 1 drwy:

- ychwanegu neu ddileu cynnyrch yng ngholofn 1 o'r Tabl yn yr Atodlen,
- ychwanegu neu ddileu esemptiad sy'n ymwneud â chynnyrch yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen, a
- gwneud diwygiadau eraill yn unol â'r adran.

45. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

46. Yn ystod ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 29 Medi 2022, tynnwyd sylw'r Gweinidog at bryderon rhai rhanddeiliaid bod y diffiniad cyfredol o 'untro' yn agored i gael ei ddehongli ac y gallai adael bylchau yn y gyfraith a allai ganiatáu i bobl, efallai, osgoi rhai o'r cyfyngiadau yn y Bil.³⁶ Wrth ymateb i'r pwynt hwn ac egluro'r diffiniadau sy'n cael eu defnyddio yn y Bil, dywedodd y Gweinidog:

“We will be putting comprehensive guidance out to help businesses, consumers and local authorities understand the various legal definitions in the Bill. We'll develop that collaboratively and we'll undertake it in advance of the legislation coming into effect so that everybody is very clear.

(...)

I don't know if you want me to immediately address, Chair, the issue about the loophole we're familiar with. So, it's commonplace in Bills for 'open to interpretation'. It's often a trade-off between ease of understanding and absolute certainty. We understand that the point that's been made to use is about multipack products—so, the text is being interpreted in such a way as

³⁶ Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 29 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [190]

to conclude that a pack of say 50 forks is not a single-use fork but a 50-uses thing. We don't think that's a sensible interpretation at all. We don't think the courts would go with that as a sensible interpretation, but we're very happy to consider the matter ahead of Stage 2..."³⁷

47. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam ei bod yn briodol dibynnu ar ganllawiau ynghylch dehongli termau a darpariaethau allweddol y Bil yn hytrach na chynnwys iaith gliriach yn y Bil. Gan ailadrodd y pwyntiau a wnaeth gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dywedodd y Gweinidog wrthym:

"Legislative drafting is, as you know, a trade-off between ease of understanding and absolute certainty. So, we all think we know what we mean by 'single-use plastic', but there will be some room for doubt. So, the guidance will be very, very clear in terms of what we think are examples of single-use plastics. The one I was using in the committee the other day was that, if you're selling single-use forks but you're selling them in a packet of 50, the argument that therefore it is not single-use because it's obviously got 50 uses in it is not going to bite, because we're going to say that each individual product in that multipack is caught. (...)

...there will be tests in the guidance: is the purpose of producing this product that it is thrown away after use? The fact that, if you were a bit more frugal you might take it home and wash it is neither here nor there, the point is is the thing produced in order to be a single-use plastic. (...) So, the guidance will assist local authorities and suppliers, and, indeed, retail outlets, and especially those in hospitality, because that's what we're talking about for a lot of these products, to understand more about what we mean by the definition than is possible to put on the face of the Bill without making it ridiculously cumbersome.

And we also are very keen with this Bill to futureproof it, so... we've given ourselves the power to add-in additional plastic items and a reporting facility under the Government of Wales Act, and the idea of that is that, as this agenda changes, and as more and more things become available in recyclable products, then we'll be able to take the non-recyclable ones out of the market... I was very keen to see a measure in the Bill that made Welsh Ministers consider each year whether or not they were going to add

³⁷ Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 29 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [196-197]

something into the list and what the evidential base for that is. So, we will have to report on whether or not we've added something in and why."³⁸

48. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai unrhyw ganllawiau sy'n codi yn destun craffu gan y Senedd ac yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid³⁹ gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr.⁴⁰ Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"...in particular, we've worked very hard with the Welsh Local Government Association and our trading standards partners to make sure that their understanding of what is banned and our understanding of what is banned is the same; that we issue guidance in conjunction with them and co-produced with them, so that it's fit for purpose; and that we have the same attitude to slightly more tricky issues like the multipacks and so on, in each part of Wales as each local authority takes up its enforcement role. (...) we are expecting—just like the single-use carrier bags—that there'll be an implementation phase of training and education, where we basically approach businesses and say, 'Are you aware that you shouldn't be supplying this stuff any more? Please don't'—guidance and so on. And then, we'll have very few prosecutions, because actually, there'll be a small phase of just making people understand and then actually, they'll come on board. And that's what happened with the single-use carrier bags and we're very much learning from that how that legislation worked and putting it into practice here."*⁴¹

Gorfodi

49. Mae adran 7(1) o'r Bil yn darparu y caiff awdurdod lleol:

- ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throeddau honedig o dan adran 5 (Trosedd cyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig) yn ei ardal,
- dwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throeddau o dan adran 5 o'r Bil yn ei ardal;
- cymryd camau eraill gyda'r nod o leihau mynychder troseddau o'r fath yn ei ardal.

³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [44-46]

³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [48-49]

⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [52-53]

⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [51]

50. Mae adran 7(2) yn darparu bod unrhyw gyfeiriad yn y Bil at un o swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol yn gyfeiriad at unrhyw berson a awdurdodir gan yr awdurdod lleol.

51. O ran gorfodaeth dywedodd y Gweinidog wrthym:

"We will absolutely be co-producing this guidance with the WLGA, and we will be taking as much advice from the trading standards officers on the ground as we are from our other experts in terms of enforcement ... So, there'll be a period of non-enforcement, where we're doing learning engagement, understanding, just explaining to people, basically, 'Do you know you're no longer allowed to supply these products? Could you stop, please? Here are alternative suppliers', and so on. You'd have to be a pretty obtuse business somewhere in Wales not to know this is coming. We've been talking about it for a good long while now, and it's not the only place in the UK.

So, I don't think it will be a big revelation to people that this stuff is coming. But, nevertheless, we will have that period of working with them, and the trading standards officers are very keen on that themselves. They don't want to be prosecuting people for no good reason who just broke the law by mistake. So, we anticipate that the people who are prosecuted under the Act will be those who are deliberately flouting the law, not people who've strayed into it by accident... But obviously we'll work with our stakeholders about developing communications around the Bill, including the provision of information to suit businesses, consumers and local authorities. There'll be a public information campaign about it, and why we're doing it and the damage to the environment that goes alongside these single-use plastics.

So, I think it will be very important to keep the guidance under review, and to make sure that it's a practical, working document fit for purpose, and we can only do that if we do it in conjunction with the enforcement bodies, which are the local authorities."⁴²

Ein barn ni

52. Mae nifer o faterion yr hoffem fod wedi ymhelaethu arnynt gyda'r Gweinidog mewn gohebiaeth ond mae'r amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer craffu wedi golygu na fu hyn yn

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [66-68]

bosibl. O ganlyniad, mae nifer o'n hargymhellion yn gofyn am i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn ystod dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Craffu cyflym: hepgor Cyfnod 1 o broses ddeddfwriaethol y Senedd

53. Nodwn fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i hepgor craffu Cyfnod 1 ar y Bil ar 27 Medi 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 26.9.

54. Fel mater o egwyddor, credwn fod Biliau a gyflwynir i'r Senedd yn elwa pan fydd pob pwyllgor perthnasol yn cael cyfle i graffu arnynt yn fanwl ac, fel rhan o'r broses honno, galluogi rhanddeiliaid i ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd dros gyfnod rhesymol o amser. Mae'r broses hon yn helpu'r ddeddfwrfa i nodi meysydd lle gellid gwella cyfraith newydd arfaethedig, er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth orau bosibl: po fwyaf trylwyr yw'r craffu, gorau'n byd yw'r ddeddfwriaeth. Serch hynny, rydym yn derbyn y gall fod achlysuron pan fo proses gyflym yn briodol.

55. Rydym yn nodi adroddiad y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.10A, a sylwadau dilynol y Cwnsler Cyffredinol mewn cyfarfod llawn, a oedd yn cynnwys gwybodaeth na chafodd ei mynegi'n glir yn ein sesiwn gyda'r Gweinidog.

56. Mae gennym bryderon difrifol y bydd hepgor proses Cyfnod 1 yn cael effaith negyddol ar graffu deddfwriaethol ar y Bil hwn.

57. Mae'r awgrym y dylid hepgor proses llunio deddf i'w gwneud hi'n haws i Lywodraeth Cymru gyflwyno her gyfreithiol, beth bynnag fo rhinweddau neu fwriadau'r her honno, yn gam gwag ac mae perygl iddo danseilio swyddogaethau'r ddeddfwrfa hon. Rydym yn gobeithio nad yw dadleuon o'r fath yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

58. Pan ofynnwyd iddi a oedd hi'n poeni am y diffyg craffu, cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymgysylltu a wnaed gyda rhanddeiliaid ac at gyhoeddi Bil drafft yn ystod toriad yr haf i gynorthwyo gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad oedd Memorandwm Esboniadol nac asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil ar gael at y diben hwnnw ac felly nid oedd modd i randdeiliaid eu hystyried. Yn ogystal, byddem yn tynnu sylw at y ffaith bod ymgynghori ac ymgysylltu a wneir gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn a wneir gan Bwyllgorau'r Senedd. Rôl y Pwyllgorau yw craffu'n fanwl ar y ffordd y mae Bil wedi'i ddrafftio er mwyn cyflawni ei amcanion polisi, yn hytrach na gwneud sylw ar yr egwyddorion polisi ehangach sy'n sail i ddarn o ddeddfwriaeth.

59. Ar fater cyflymu'r ddeddfwriaeth oherwydd yr angen i'w chynnwys ar y llyfr statud yn gyflym, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y dadleuon a gyflwynwyd gan y Gweinidog, am y rhesymau a nodir gennym isod.

60. Dylai Deddfau'r Senedd fod yn effeithiol wrth gyflawni eu hamcanion polisi. Yn ein barn ni, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, dylai hynny ofyn am graffu llawn ar Filiau gan y Senedd dros gyfnod rhesymol o amser, yn hytrach na chraffu cyfyngedig a gorddibyniaeth ar sicrwydd gan y Llywodraeth bod y ddeddfwriaeth yn gadarn. Yn wir, ar yr un diwrnod ag y cyflwynwyd y Bil, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn tynnu sylw at welliannau yr oedd yn eu cynnig yng Nghyfnod 2. Mae'r ffaith bod y gwelliannau hyn yn ymwneud â thestun cyfredol yn awgrymu bod cyflwyno'r Bil wedi ei ruthro a hefyd y gallai fod materion pellach nad ydynt wedi cael eu hystyried yn llawn.

61. Yn ein barn ni, mae perygl y gallai craffu cyfyngedig arwain at ganlyniadau anfwriadol ac, o bosibl, na fydd y Bil yn gallu cyflawni ei amcanion polisi arfaethedig a llawn yn effeithiol, ac felly na fydd o fudd llawn i amgylchedd Cymru. Rydym yn ystyried y pwynt hwn ymhellach yn ein trafodaeth isod ar effaith UKIMA.

62. Nid ydym ychwaith wedi ein hargyhoeddi fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu mor gyflym ag y gallai fod wedi gwneud. Ym mis Mawrth 2020, yn ystod y Pumed Senedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai gwellt a chytleri plastig, a chynwysyddion bwyd a diod polystyren, yn cael eu gwahardd yng Nghymru fel rhan o fesurau ehangach i wneud Cymru y wlad orau yn y byd am ailgylchu, gan nodi y byddai ymgynghoriad ar y cynigion yn digwydd gyda chyfyngiadau ac y dylent ddod i rym yn hanner cyntaf 2021.⁴³ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, "Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer is-ddeddfwriaeth rhwng 30 Gorffennaf 2020 a 22 Hydref 2020".⁴⁴ Nododd hefyd:

*"Cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yw'r cam cyntaf wrth gyflawni'r ymrwymiad yn ein **Rhaglen Lywodraethu**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, i atal defnyddio'r cynhyrchion plastig untro yng Nghymru sy'n cael eu sbwriela fwyaf aml. Mae hefyd yn cyfrannu at ein gweledigaeth ehangach i sefydlu economi gylchol yng Nghymru, fel y'i hamlinellir yn ein strategaeth **Mwy nag Ailgylchu**, ac at weithredu nifer o gamau gan gynnwys y rhai yn ein*

⁴³ Llywodraeth Cymru, Gwahardd y defnydd o blastig untro yng Nghymru, 18 Mawrth 2020

⁴⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.1.1

***Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon** sydd â'r nod o fynd i'r afael â chynhyrchion untro yng Nghymru.*⁴⁵

- 63.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn "deddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel", er nad oes sôn a fydd hyn drwy Fil neu is-ddeddfwriaeth.
- 64.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn 2020 ar gynigion i leihau plastigau untro yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi bod rheoliadau yn Lloegr a'r Alban (fel i ni grybwyll gyda'r Gweinidog) wedi'u cyflwyno i wahardd rhai plastigau untro, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2020 yn Lloegr a mis Mehefin 2022 yn yr Alban.⁴⁶ Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pam nad oedd is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio yng Nghymru, tynnodd sylw at bwysigrwydd nodi'r polisi mewn deddfwriaeth sylfaenol a gallu ei ddiweddarau.
- 65.** Nid yw'n glir i ni pam ei bod wedi cymryd tua dwy flynedd ers i'r ymgynghoriad gau ym mis Hydref 2020 i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Byddem yn dadlau, yn hytrach na cheisio cyflymu hynt y Bil drwy'r Senedd, a lleihau'r cyfleoedd ar gyfer craffu gwerthfawr, y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflymu datblygiad y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Yn hyn o beth, rydym hefyd yn tynnu sylw at ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2021,⁴⁷ ac adroddiadau ein Pwyllgor rhagflaenol,⁴⁸ yn mynegi pryder am ddefnydd Llywodraeth Cymru o Fil yr Amgylchedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni polisi mewn maes datganoledig.
- 66.** Er ein bod yn croesawu defnyddio Bil i gyflawni'r amcan polisi, rydym am wneud sylwadau ar awgrym y Gweinidog mai un o fanteision y Bil dros reoliadau yw ei fod yn gyfrwng i gadw'r ddeddfwriaeth yn gyfredol (oherwydd bod y Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau yn adran 3 ar gyfer Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu dynnu mathau o blastigau untro at y rhestr a nodir yn Atodlen 1). Fodd bynnag, ni fyddai cyflwyno rheoliadau o dan Ddeddf 1990 yn y lle cyntaf yn atal cyflwyno Bil maes o law i wahardd rhagor o fathau o blastigau untro sy'n llygru (yn dilyn, fel y soniodd y Gweinidog, y sail dystiolaeth angenrheidiol) ac i gydgrynhoi'r

⁴⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5.2

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.9.1-3.9.5

⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd**, Gorffennaf 2021

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd**, Gorffennaf 2020; Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Amgylchedd**, Chwefror 2021

deddfwriaeth bresennol. Mae'n werth nodi hefyd na fyddai cyflwyno rheoliadau o dan Ddeddf 1990 yn y lle cyntaf yn atal gwahardd plastigion untro ychwanegol drwy reoliadau.

67. Credwn hefyd, os yw Llywodraeth Cymru am weithredu deddfwriaeth sylfaenol ar frys, fod yn rhaid iddi wneud hynny yn y ffordd fwyaf tryloyw - ffordd y mae holl Aelodau'r Senedd yn gallu ystyried a phleidleisio ar ei phriodoldeb o'r cychwyn cyntaf. Mae gweithdrefn Bil Brys y Senedd (o dan Reolau Sefydlog 26.95–26.104) yn rhoi'r opsiwn hwn i Lywodraeth Cymru. Rydym o'r farn y byddai'n well pe bai'r Senedd gyfan wedi ystyried y cwestiwn ynghylch a oedd y fath frys am y Bil hwn fel bod angen cyflymu ei hynt drwy'r Senedd, yn hytrach na'i fod wedi ei adael i'r Pwyllgor Busnes ei benderfynu.

68. Rydym hefyd yn nodi'r ohebiaeth gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i'r Pwyllgor Busnes, a ddywedodd:

"Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf, byddai penderfyniad gan y Pwyllgor Busnes i osgoi gwaith craffu pwyllgor yn amddifadu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r unig gyfle iddynt gael eu hymgyngori ar y darpariaethau manwl yn y Bil. Roedd angen gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y tu allan i broses graffu ffurfiol y Bil, er mwyn osgoi diffyg craffu. Credaf ein bod wedi llwyddo yn ein nod. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y dull hwn mewn unrhyw ffordd yn cyfateb i, ac yn sicr nid yn disodli'n ddigonol waith craffu Pwyllgor Cyfnod 1 ffurfiol."

69. Rydym yn cytuno â'r farn hon ac yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi gallu ymgymryd â gwaith yn ystod toriad yr haf er mwyn hwyluso rhywfaint o graffu ar y Bil cyn y ddadl Cyfnod 1 ar ei hegwyddorion cyffredinol.

70. Nodwn hefyd y cyfeiriadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog⁴⁹ at ofynion cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar rwystrau technegol i fasnachu. Nid ydym yn glir pam na chyfeirir at hyn yn y Memorandwm Esboniadol o ystyried bod ganddo oblygiadau ar gyfer cychwyn darpariaethau'r Bil.

Casgliad 1. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru geisio osgoi craffu Cyfnod 1 ar y Bil

71. Rydym yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

⁴⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 29 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [208]

Argymhelliad 1. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro pam na chafodd Bil ei gyflwyno yn gynnar ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd.

Argymhelliad 2. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro beth fyddai'r goblygiadau wedi bod i amgylchedd Cymru pe bai'r Bil wedi bod yn destun proses graffu arferol Cyfnod 1 y Senedd a chraffu deddfwriaethol llawn.

Argymhelliad 3. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, o ystyried ei barn bod angen y ddeddfwriaeth ar frys, dylai'r Gweinidog egluro pam na ofynnodd am ddefnyddio gweithdrefn Bil Brys y Senedd.

Argymhelliad 4. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, o gofio ei barn nad yw *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn effeithio ar y Bil, dylai'r Gweinidog egluro pam y cafodd ei defnyddio fel dadl ar gyfer cyflymu craffu ar y Bil.

Argymhelliad 5. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ddatgan yn glir pryd y mae'n bwriadu cychwyn holl ddarpariaethau'r Bil fel ei fod yn gwbl weithredol.

Argymhelliad 6. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gadarnhau sut y bydd cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar rwystrau technegol i fasnachu yn effeithio ar gychwyn a gweithredu darpariaethau'r Bil.

Effaith bosibl UKIMA

72. Yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 5 Hydref 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oeddent yn credu bod Deddf y farchnad fewnol yn drech na'u pwerau a'u cyfrifoldebau datganoledig eu hunain.

73. Rydym yn derbyn na all UKIMA gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu ar faterion sydd wedi'u datganoli ac sydd o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, ein pryder yw unwaith y bydd cyfraith wedi'i gwneud gan y Senedd, y gall UKIMA ddylanwadu ar ba mor effeithiol yw'r gyfraith honno oherwydd yr egwyddorion mynediad i'r farchnad y mae'n eu cyflwyno ar draws y DU.

74. Er y gall y Senedd ddeddfu i wahardd bagiau siopa untro a phlastigau ocso-ddiraddiadwy fel sy'n cael ei gynnig yn y Bil, gallai'r gwaharddiad hwnnw gael ei wneud yn aneffeithiol oherwydd gallai'r cynhyrchion hynny fod ar gael yng Nghymru gan gynhyrchwyr nad ydynt o Gymru ond o Loegr, er enghraifft, lle nad ydynt wedi eu gwahardd. I gyfleu'r pwynt hwn, rydym yn cynnwys astudiaeth achos ym Mluch 1.

Blwch 1: Astudiaeth achos plastig ocso-ddiraddiadwy

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi y byddai'r darpariaethau yn y Bil ar blastigau ocso-ddiraddiadwy yn gwahardd cyflenwi ffilm tomwellt i gynhyrchwyr amaethyddol a garddwriaethol yng Nghymru. Defnyddir y ffilm hon gan fusnesau ar gyfer rheoli chwyn, cadw lleithder ac yn gyffredinol i wella cynnyrch cynydu.

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi costau, risgiau a manteision gwaharddiad o'r fath ar gyflenwad ond nid yw'n sôn am *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.

Cynhyrchwyr Cymru

Pe bai'r Bil yn cael ei basio fel y mae wedi'i ddrafftio yna byddai'n drosedd i gynhyrchydd o Gymru neu gwmni sy'n mewnfario ffilm tomwellt yn uniongyrchol i Gymru o du tu hwnt i'r DU gyflenwi ffilm tomwellt ocso-ddiraddiadwy yng Nghymru. Mae asesiad effaith rheoleiddiol y Bil yn datgan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw gynhyrchwyr ffilm tomwellt yng Nghymru.

Cynhyrchwyr mewn rhannau eraill o'r DU

Nid yw plastigau ocso-ddiraddiadwy wedi eu gwahardd yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O'r herwydd gellir parhau i gyflenwi ffilm tomwellt yn gyfreithlon yn y gwledydd hyn.

Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol sydd wedi'i hymgorffori yn *Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn golygu bod gan gynhyrchwyr neu fewnforwyr ffilm tomwellt yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr hawl i werthu eu cynnyrch yng Nghymru yn awtomatig ar yr amod eu bod yn bodloni'r safonau cyfreithiol a osodwyd ar gyfer y cynhyrchion hyn yn y wlad y'u cynhyrchir.

Effaith UKIMA ar y Bil

Yn yr enghraifft hon, o gofio bod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn dweud na chafwyd hyd i gynhyrchwyr o Gymru, oni bai bod cynhyrchwyr garddwriaethol neu gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru yn mewnfario ffilm tomwellt yn uniongyrchol i Gymru o'r tu allan i'r DU, ni fyddai'r gwaharddiad ar blastigau ocso-ddiraddiadwy yn cael fawr o effaith ymarferol yng Nghymru. Bydd busnesau yng Nghymru'n dal i allu prynu ffilm tomwellt o fannau eraill yn y DU gan y byddai cyflenwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu parhau i gyflenwi iddynt.

75. At hynny, pan ofynnwyd pam nad yw'r Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys gwybodaeth am yr effeithiau posibl y gallai UKIMA eu cael ar effaith

ymarferol y Bil hwn, dywedodd y byddai'n rhyfedd iawn ei gynnwys o ystyried eu barn am UKIMA, gan ddweud:

"We just take the view that it's not relevant. It doesn't bite, it doesn't affect our competence, and therefore we're not taking it into account. It would be very self-contradictory to then set out some 'what ifs', if you like. So, I'm very confident that that's the right thing to do..."

76. Rydym yn anghytuno â'r Gweinidog am beidio â chynnwys yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol oherwydd:

- un o'r rhesymau dros gyflymu hynt y Bil a gynnwysir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes yw bwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil fel enghraifft ymarferol i gefnogi ei hachos mewn perthynas ag UKIMA yn y Goruchaf Lys;
- mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cydnabod ei fod yn dal i gadw golwg agos iawn ar her Llywodraeth Cymru i UKIMA.

77. Trwy beidio â chydabod effaith bosibl UKIMA ar effaith ymarferol y Bil hwn a gorfodi'r Bil, rydym yn bryderus bod perygl nad yw pobl a busnesau sy'n cael eu heffeithio yng Nghymru yn cael gwybodaeth gywir am effaith y ddeddfwriaeth hon. Gallai hyn olygu nad yw unigolion a busnesau'n ymwybodol o hyd a lled y gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru neu eu bod wedi'u camarwain yn hyn o beth. Yn ogystal, mae'n bosibl bod anawsterau ac ansicrwydd ynghylch pa ddarpariaethau y gellir eu gorfodi gan adrannau safonau masnach awdurdodau lleol. Rydym yn poeni hefyd fod ansicrwydd wrth orfodi'r Bil yn cael ei basio ymlaen i awdurdodau lleol.

78. Gellid bod wedi archwilio'r materion hyn yn fanylach pe na bai craffu Cyfnod 1 wedi'i gyflymu.

Argymhelliad 7. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw'r astudiaeth achos ar blastig oco-so-ddiraddiadwy yn gywir ac os nad ydyw, pam.

Argymhelliad 8. Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom ni a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gan ddarparu ei hasesiad manwl o'n hastudiaeth achos ar blastig oco-so-ddiraddiadwy gan gynnwys unrhyw oblygiadau o ran gorfodi'r gyfraith sy'n deillio o'r Bil.

Argymhelliad 9. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r holl eitemau

gwaharddedig yn y Bil, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cyflenwi o rannau eraill o'r DU, gan gynnwys, yn benodol, bagiau siopa untro a phlastigau oco-so-diraddiadwy.

Argymhelliad 10. Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom ni a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn darparu gwybodaeth fanwl sy'n egluro sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r holl eitemau gwaharddedig yn y Bil, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cyflenwi o rannau eraill o'r DU, gan gynnwys, yn arbennig, bagiau siopa untro a phlastigau oco-so-diraddiadwy.

Argymhelliad 11. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog, os nad yw UKIMA yn effeithio ar y Bil a bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, (ac yn dilyn sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol yng nghyfarfod llawn ar 5 Hydref) esbonio ar ba sail y *gallai* Llywodraeth Cymru wneud her gyfreithiol mewn perthynas ag UKIMA a thrwy ba lwybr cyfreithiol.

Darpariaethau yn y Bil a rheolaeth y gyfraith

79. Un o egwyddorion sylfaenol rheolaeth y gyfraith yw sicrwydd. Felly, nid ydym yn rhannu barn y Gweinidog y dylai deddfwriaeth fod yn "agored i'w ddehongli" neu ei bod yn gyfaddawd rhwng rhwyddineb deall a sicrwydd llwyr. Yn sicr, nid ydym yn credu y dylai fod lle ar gyfer amheuaeth, yn enwedig lle mae'r Gweinidog o'r farn ein bod ni i gyd yn meddwl ein bod ni'n gwybod beth rydym yn ei olygu wrth 'blastig untro'.

80. O'r herwydd credwn y dylai fod diffiniadau gwell a manylach yn y Bil, yn hytrach na cheisio rhoi eglurder drwy ganllawiau. Mae rheolaeth y gyfraith yn golygu bod angen gwahaniaethu rhwng canllawiau anstatudol a gofynion a osodir gan y gyfraith. Er i'r Gweinidog gyfeirio at ganllawiau statudol, nid yw'r Bil yn adlewyrchu'r safbwynt hwn ar hyn o bryd. Er y gallai canllawiau ddylanwadu ar ymddygiad, y llysoedd a fyddai'n dehongli'r Bil yn y pen draw. Gall cyflwyno diffiniadau rhy hyblyg yn y Bil arwain at amwysedd a her. Rydym felly'n pryderu am awdurdodau lleol wrth orfodi'r darpariaethau sydd yn y Bil, o gofio na ddylent gymhwyso na gorfodi canllawiau fel pe baent yn gyfraith.

81. Mae dyletswyddau a osodir ar bobl yn gofyn am sicrwydd cyfreithiol - bydd angen i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i ddehongli a deall sut y gallant gydymffurfio â'r gyfraith.

82. Rydym hefyd yn nodi sylw'r Gweinidog y byddai unrhyw ganllawiau sy'n codi yn destun craffu gan y Senedd ac yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, unwaith eto, nid oes unrhyw ofyniad o'r fath wedi'i gynnwys yn y Bil.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ailedrych ar y diffiniadau yn adran 1 o'r Bil, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliannau sy'n cynnwys diffiniadau mwy cyflawn, sy'n lleihau'r cyfleoedd i achub mantais ar fylchau ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r rhai sy'n gorfodi'r Bil.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn darparu bod dyletswydd yn y Bil i ddarparu canllawiau; bod y ddyletswydd yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid ac y dylai'r canllawiau fod yn destun craffu gan y Senedd.

83. Nodwn fod pwerau Harri'r Wythfed wedi'u cynnwys yn adran 3 a fyddai'n caniatáu i'r rhestr o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig gael ei newid gan reoliadau ac rydym yn croesawu'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol i'w gwneud.

84. Fodd bynnag, credwn y dylai Gweinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu dyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr cyn gwneud rheoliadau o dan adran 3.

85. Fel y nododd ein trafodaeth gyda'r Gweinidog a'r swyddogion am y gwelliannau arfaethedig i adran 5⁵⁰, mae materion sy'n gysylltiedig â'r drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig yn gymhleth.

Argymhelliad 15. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymau dros ddarparu bod person y tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd os yw'n cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru.

Argymhelliad 16. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd adran 5 o'r Bil yn cael ei orfodi o ran bagiau siopa untro a phlastigau oco-ddiraddiadwy.

86. Mae llawer o'n hargymhellion yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu yn ystod y ddadl Cyfnod 1 a gall hyn olygu nad yw'r ymatebion mor fanwl ag sy'n angenrheidiol at ddibenion hwyluso camau diwygio'r broses ddeddfwriaethol yn ddiweddarach.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod ymatebion manwl mewn perthynas â sylwedd pob argymhelliad wedi'u cynnwys yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, a dylid eu darparu cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1.

⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [77-97]